O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 687 (Cy.102)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A5 a'r A55 (Cyffordd 11 (Cylchfan Llys y Gwynt) i Gylchfan yr A4244, Gwynedd) (Cyfyngiadau Traffig dros Dro a Gwaharddiad) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *8 Mawrth 2011* |
| *Yn dod i rym* | *11 Mawrth 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Llundain i Gaergybi (yr A5) a Chefnffordd Caer i Fangor (yr A55) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall, yn gwneud y Gorchymyn hwn**(2)**.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Mawrth 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A5 a'r A55 (Cyffordd 11 (Cylchfan Llys y Gwynt) i Gylchfan yr A4244, Gwynedd) (Cyfyngiadau Traffig dros Dro a Gwaharddiad) 2011.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" (*"exempted vehicle"*) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys, neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" (*"works period"*) yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 19:00 o'r gloch ar 11 Mawrth 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

ystyr “y darn(au) o’r gefnffordd” (“*the length(s) of the trunk road*”) yw’r darnau hynny o gefnffyrdd yr A5 a’r A55 yn Llys y Gwynt yn Sir Gwynedd a bennir yn yr atodlenni i’r Gorchymyn hwn;

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar hyd y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar hyd y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn yn ystod y cyfnodau pan fydd y gwaharddiad a bennir yn erthygl 5 yn weithredol.

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau ac i’r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a’r gwaharddiad a’r y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 8 Mawrth 2011

**GARETH MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

### Gwahardd Cerbydau

Y darnau cyfan o ffyrdd ymuno a ffyrdd ymadael tua'r dwyrain a a thua'r gorllewin cefnffordd yr A55 wrth Gyffordd 11 (Cylchfan Llys Y Gwynt).

## ATODLEN 2

### Terfyn Cyflymder 30 mya a 10 mya a dim goddiweddyd

Y darnau hynny o gefnffordd yr A5 sy'n ymestyn o gerbytffordd gylchredol Cylchfan Llys y Gwynt ar yr A5, ac yn cynnwys y cyfan ohoni, hyd at bwynt 100 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt yr allanfa i Fethesda ar Gylchfan yr A4244 ac yn cynnwys y cyfan o gerbytffordd gylchredol Cylchfan yr A4244.